# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Cynllun Pensiwn Aelodau

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

01 Ebrill 2010 – 31 Mawrth 2011

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Cynllun Pensiwn Aelodau

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

01 Ebrill 2010 – 31 Mawrth 2011

## Cynnwys Tudalen


| | |
|---|---|
| ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR AM Y CYFNOD A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2011 I AELODAU CYNLLUN PENSIWN AELODAU CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU | 1 |
| YR ADRODDIAD BUDDSODDI | 9 |
| DATGANIAD YR ACTIWARI | 15 |
| DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R YMDDIRIEDOLWYR | 18 |
| DATGANIAD O GYFRANIADAU | 19 |
| DATGANIAD YR ARCHWILYDD CYFFREDINOL YNG NGHYMRU YNGLŶN Â CHYFRANIADAU | 20 |
| DATGANIAD REOLAETH MEWNOL | 21 |
| TYSTYSGRIF ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU | 23 |
| CYFRIFON Y CYNLLUN PENSIWN | 25 |
| NODIADAU I GYD-FYND Â'R CYFRIFON | 27 |
| DATGANIAD CYDYMFFURFIO | 32 |

## ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR AM Y CYFNOD A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2011 I AELODAU CYNLLUN PENSIWN AELODAU CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

### Cefndir Deddfwriaethol Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynllun")

Sefydlwyd y Cynllun o dan adran 18 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae Adran 20 (4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn rhoi dilyniant i'r Cynllun. Nid yw Deddf Llywodraeth Cymru 2006 wedi effeithio ar statws cyfreithiol y Cynllun.

### Datblygiadau yn ystod y flwyddyn

Cafodd y Mesur i sefydlu Bwrdd Taliadau annibynnol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Bwrdd") Gydsyniad Brenhinol ar 21 Gorffennaf 2010, a dechreuodd y Bwrdd weithredu ym mis Medi 2010.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am bennu cyflog, lwfansau a phensiynau Aelodau'r Cynulliad. Mae gan y Bwrdd bŵer i ddiwygio'r Cynllun, yn cynnwys y rheolau, ond nid yw'n rheoli'r Cynllun na'i reolaeth fewnol, ac nid yw'n cael ei gyfeirio ato yn y Datganiad ar Reoliadau Mewnol ar dudalen 21 a 22.

Awgrymodd yr Ymddiriedolwyr nifer o ddiwygiadau arfaethedig i'r rheolau i'r Bwrdd eu hystyried, a chytunwyd ar y rhai a ganlyn:

**13 Ionawr 2011**

Cafodd rheolau E2(1) ac E2(2) a'r gwelliannau dilynol i reolau D1(5), D2(4) ac L eu diwygio i'r perwyl y byddai croniad pensiwn Aelod yn cael ei wneud ar sail pro rata heb unrhyw gyfraniadau ychwanegol yn cael eu gwneud os na fyddai'r Aelod hwnnw'n cymryd cyflog llawn, a hynny'n effeithiol o 1 Ebrill 2010 ymlaen.

**25 Chwefror 2011**

Cafodd rheol H1 ei diwygio, o 1 Gorffennaf 2010 ymlaen, i alluogi Ymddiriedolwyr i adolygu'r ffactorau ar gyfer ymddeoliad cynnar er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am y rhwymedigaethau i wneud hynny mewn modd sy'n niwtral o ran cost.

**28 Mawrth 2011**

Cafodd Rhan A (y cyfanswm a ganiateir) ei diwygio i ganiatáu i Ymddiriedolwyr bennu swm penodol nad yw'n cynyddu ac y gallant ei adolygu o bryd i'w gilydd. Mae hyn yn disodli'r mynegeio awtomatig a arferai fod yn gymwys.

Cafodd Rhan F (Hawliau pensiynau deiliaid swyddi) ei diwygio, o 1 Mawrth 2011 ymlaen, i alluogi deiliaid swyddi sy'n parhau yn eu swyddi yn ystod y diddymiad i gael eu pensiynau deiliaid swyddi wedi'u trin yn bensiynadwy er nad oeddent bellach, efallai, yn Aelodau'r Cynulliad.

Bydd Atodlen 4 (prynu blynyddoedd ychwanegol) yn cael ei ddiwygio o 1 Ebrill 2011 fel na all prynu blynyddoedd ychwanegol—pan fydd hynny'n cael ei ychwanegu at amcangyfrif y gwasanaeth disgwyliedig y gellir ei gyfrif tuag at oedran pensiwn y Cynllun—fod yn fwy na dwy ran o dair yr uchafswm a ganiateir.

## Nod yr Adroddiad

Mae'r Cynllun wedi'i eithrio o'r gofyniad a nodir yn Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Datgelu Gwybodaeth) 1996 i baratoi adroddiad a chyfrifon archwiliedig cyn pen saith mis ar ôl diwedd y flwyddyn gyfrifyddu. Bwriad yr Ymddiriedolwyr yw cydymffurfio ag ysbryd y ddeddfwriaeth hon trwy ddatgelu gwybodaeth berthnasol, gan gynnwys manylion actiwaraidd a chyfrifyddu, i bob aelod o'r Cynllun cyn pen 3 mis ar ôl ardystio'r cyfrifon archwiliedig yn unol ag Atodlen 1 paragraff 13 o Reolau'r Cynllun.

### Yr Ymddiriedolwyr

Dyma'r Ymddiriedolwyr am y flwyddyn

| | |
|---|---|
| William Graham AC | (Cadeirydd) |
| Rosemary Butler AC | |
| Dafydd Wigley | (Ymddiriedolwr Bensiynwr) |
| Michael German | |
| John Griffiths AC | (Penodwyd ar 9 Mehefin 2010) |
| Gareth Jones AC | (Penodwyd ar 9 Mehefin 2010) |

Dyma'r Ymddiriedolwyr ar y dyddiad y cymeradwywyd yr adroddiad blynyddol:

William Graham AC (Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr)
Rosemary Butler AC
Dafydd Wigley (Ymddiriedolwr Bensiynwr)
Michael German
John Griffiths AC
Gareth Jones

## Gweinyddu'r Cynllun

Ysgrifenyddiaeth y Cynllun sy'n gweithredu'r Cynllun o ddydd i ddydd fel rhan o Wasanaethau Ariannol Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am bensiynau neu gais am unrhyw wybodaeth ychwanegol at yr Ysgrifenyddiaeth yn y cyfeiriad a ganlyn:

Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Gwasanaethau Ariannol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Roger Beale Ffôn: 02920 898956 Ffacs: 02920 898059
e-bost: roger.beale@cymru.gov.uk

Liz Calder Ffôn: 02920 898809 Ffacs: 02920 898059
e-bost: liz.calder@cymru.gov.uk

## Incwm y Gronfa

Mae incwm y Gronfa yn deillio o'r ffynonellau a ganlyn; cyfraniadau gan aelodau gweithredol y Cynulliad a chan Gomisiwn y Cynulliad fel cyflogwr.

Mae Aelodau a Deiliaid Swyddi yn cyfrannu 10% o'u cyflogau os ydynt yn cronni buddion ar sail deugeinfed a 6% o'u cyflogau os ydynt yn cronni buddion ar sail hanner canfed. Mae'r Cynulliad, fel y cyflogwr, yn cyfrannu 23.8% o gyflogau pensiynadwy at y cynllun sylfaenol a'r cynllun Deiliaid Swyddi. Mae'r cyfraddau hyn wedi bod mewn grym ers 1 Ebrill 2009 yn dilyn y trydydd prisiad tair blynedd ar 1 Ebrill 2008.

## Prisiad yr Actiwari

Mae'n ofynnol i Actiwari'r Cynllun lunio adroddiad ar sefyllfa ariannol gyffredinol y Gronfa bob tair blynedd a gwneud argymhellion ar gyfradd cyfraniad Comisiwn y Cynulliad yn y dyfodol. Cwblhawyd y trydydd prisiad tair blynedd ar 1 Ebrill 2008 a gosodwyd yr adroddiad ar 13 Mai 2009, yn unol â rheolau'r Cynllun.

Roedd y datganiad gan yr Actiwari, dyddiedig 26 Mawrth 2009, yn argymell cyfradd cyfrannu o 23.8% o gyflog pensiynadwy yr Aelodau gan ddechrau o 1 Ebrill 2010 ymlaen. Mae'r gyfradd hon yn cynrychioli'r swm sy'n ofynnol i dalu costau'r Cynllun er mwyn sicrhau y telir am fuddiannau a chyfraniadau'r Aelodau gan ystyried gwasanaeth presennol a gwasanaeth yn y dyfodol.

Mae'r dystysgrif ddilynol, dyddiedig 11 Mai 2011, (tudalennau 15 a 16) yn cadarnhau bod cyfraniad y Cynulliad o 23.8% yn ddigonol ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae'r lefel bresennol yn ddigonol i dalu am y buddiannau presennol. Mae'r datganiadau hyn yn seiliedig ar asedau a rhwymedigaethau'r Cynllun ar y dyddiad prisio. Mae'r datganiadau hyn yn cydymffurfio'n llawn â gofynion Nodyn Cyfarwyddyd GN9 y Sefydliad Actiwarïaid a'r Gyfadran Actiwarïaid.

**Aelodaeth**

Aelodau Gweithredol

| | |
|---|---|
| Aelodau Gweithredol ar 1 Ebrill 2010 | 60 |
| (*39 ohonynt yn Ddeiliaid Swyddi*) | |
| *ynghyd ag:* Aelodau newydd yn ystod y flwyddyn | 1 |
| *llai:* Aelodau sydd wedi gadael yn ystod y flwyddyn | 0 |
| Aelodau sydd wedi ymddeol yn ystod y flwyddyn | (1) |
| Aelodau a fu farw mewn gwasanaeth | 1 |
| **Aelodau Gweithredol ar 31 Mawrth 2011** | **59** |

Aelodau sy'n gohirio cymryd eu pensiwn

| | |
|---|---|
| Aelodau sy'n gohirio cymryd eu pensiwn ar 1 Ebrill 2010 | 15 |
| *ynghyd ag:* Aelodau a adawodd gan gadw'u hawl i ohirio cymryd eu pensiwn | 0 |
| *llai:* Aelodau a hawliodd eu pensiwn gohiriedig | (2) |
| **Aelodau sy'n gohirio cymryd eu pensiwn ar 31 Mawrth 2011** | **13** |

Pensiynwyr sy'n derbyn tâl

| | |
|---|---|
| Pensiynwyr a oedd yn derbyn Tâl ar 1 Ebrill 2010 | 16 |
| *ynghyd ag:* Aelodau sy'n ymddeol yn ystod y flwyddyn | 1 |
| *ynghyd ag:* Aelodau a hawliodd eu pensiwn gohiriedig | 2 |
| *Ynghyd ag:* Aelodau sydd â dibynyddion newydd | 0 |
| *llai:* Aelodau a fu farw yn ystod y flwyddyn | 0 |
| **Pensiynwyr a oedd yn derbyn Tâl ar 31 Mawrth 2011** | **19** |

Datgelir manylion y taliadau a wnaed o'r cynllun yn ystod y flwyddyn yn Nodyn 5 y cyfrifon. Ni gynyddwyd pensiynau sy'n cael eu talu o 6 Ebrill 2010 ymlaen oherwydd bod y Mynegai Prisiau Manwerthu yn negyddol ac ni chafodd Gorchymyn Cynyddu Pensiynau (Adolygu) ei gyflwyno.

## Paratoi ac Archwilio'r Cyfrifon Blynyddol

Paratoir y cyfrifon yn unol â'r Datganiad Arferion a Argymhellir (SORP), Adroddiadau Ariannol Cynlluniau Pensiwn (diwygiwyd Mai 2007), cyn belled â bod hynny'n briodol.

Mae'r cyfrifon hyn yn cael eu paratoi gan swyddogion y Cynulliad, ar ran yr Ymddiriedolwyr, ac yn cael eu harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Maent yn cael eu paratoi a'u harchwilio o dan Adrannau 41 (1) a (6) o Ddeddf Pensiynau 1995 ac yn unol ag OS 1996/1975 Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gofyniad i dderbyn Cyfrifon Archwiliedig a Datganiad gan yr Archwilydd).

Rhagwelir y bydd y cyfrifon archwiliedig yn cael eu gosod gerbron y Cynulliad cyn pen 3 mis ar ôl llofnodi a chyhoeddi Datganiad yr Archwilydd.

Mae copïau o'r cyfrifon hyn ar gael gan yr Ysgrifenyddiaeth os gwneir cais amdanynt.

## Crynodeb o'r Wybodaeth Ariannol

£1,437,871 oedd yr incwm yn ystod y cyfnod (2009-2010 £1,522,828), a £529,717 oedd gwariant y Cynllun (2009-2010 £164,392). £18,784,595 oedd asedau net y Cynllun ar 31 Mawrth 2011 (31 Mawrth 2010 £16,129,920).

Yn ystod y cyfnod, rhoddwyd cyfanswm o £884,562 i Reolwyr y Gronfa i'w fuddsoddi yng Nghronfa Bensiwn Twf Amrywiol a Chronfa Bensiwn Reoledig Baillie Gifford. Ni wnaed unrhyw ychwanegiadau at Gronfa Bensiwn Reoledig Baillie Gifford yn ystod y flwyddyn. Cyfanswm gwerth y Gronfa ar y farchnad ar 31 Mawrth 2011 oedd £18,129,617 (31 Mawrth 2010 £15,500,119).

Ar 31 Mawrth 2011, roedd cyfanswm o £250,000 (31 Mawrth 2010 £484,259) mewn cyfrif cadw y Trysrolys ac roedd banc y Cynllun yn ennill llog yn seiliedig ar gyfraddau'r farchnad ariannol gyfredol. Caiff yr arian hwn ei gadw at ddibenion hunanyswirio.

## Buddsoddiadau

Mae'r holl fuddsoddiadau mewn daliannau a ganiateir gan reoliadau'r Cynllun ac na chânt eu gwahardd gan yr Ymddiriedolwyr.

Nid yw maint asedau'r cynllun yn ddigon i ganiatáu portffolio llawn amrywiaeth o fuddsoddiadau pe bai'r asedau'n cael eu buddsoddi'n uniongyrchol mewn bondiau, stociau a chyfranddaliadau. Felly, nes i'r asedau dyfu'n ddigon mawr, cred yr Ymddiriedolwyr mai'r ffordd fwyaf effeithiol o fuddsoddi gydag amrywiaeth addas ac am gost resymol yw defnyddio ymddiriedolaethau uned neu gwmnïau buddsoddi penagored.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn disgwyl i adenillion y buddsoddiadau fod yn ganolig neu'n well ar gyfer eu sector wrth eu mesur yn erbyn cronfeydd pensiynau cyfun tebyg. Disgwylir hefyd i adenillion y buddsoddiadau fod yn uwch na chwyddiant pris ac i'r gwahaniaeth rhwng y ddau fod yn ddigon i sicrhau y darperir ar gyfer buddiannau'r Cynllun yn unol â chyfrifiadau actiwaraidd y cynllun.

**Polisi Buddsoddi**

Yr Ymddiriedolwyr sy'n pennu Polisi'r Cynllun a bydd yn cael ei adolygu o bryd i'w gilydd. Nodir y polisi sydd mewn grym ar 31 Mawrth 2011 yn y Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi, sydd wedi'i fabwysiadu gan yr Ymddiriedolwyr a gall Aelodau wneud cais i Ysgrifenyddiaeth y Cynllun i'w weld. Nid yw'r polisi'n caniatáu unrhyw fuddsoddiad cysylltiedig â'r cyflogwr.

Dyma'r amcanion perfformiad ar gyfer y cronfeydd buddsoddi:

Cronfa Bensiwn Reoledig Baillie Gifford – perfformio 1.0 – 1.5% (gros) yn well bob blwyddyn na Chronfa Gronedig Ganolrif CAPS Gytbwys dros gyfnodau treigl o dair blynedd.

Dros y pum mlynedd ddiwethaf bu cynnydd o 6.3% yng nghyfradd enillion blynyddol y Gronfa Bensiwn Reoledig yn erbyn perfformiad meincnodi o 4.2%

Cronfa Bensiwn Fynegrifol Baillie Gifford – perfformio 0.75% (gros) yn well bob blwyddyn na'r enillion ar Fynegai Gilt Fynegrifol 5 mlynedd Actiwarau'r FT dros gyfnodau treigl o dair blynedd.

Dros y 5 mlynedd ddiwethaf mae'r Gronfa Bensiwn Fynegrifol wedi tangyflawni ychydig; y gyfradd enillion blynyddol oedd 5.87% yn erbyn perfformiad meincnodi o 5.92%.

Cronfa Bensiwn Twf Amrywiol Baillie Gifford – perfformio 3.5% (gros) y flwyddyn yn well na chyfradd sylfaenol y DU (heb gynnwys ffioedd) dros gyfnodau treigl o bum mlynedd.

Yn ystod y 12 mis diwethaf, bu cyfradd enillion o 9.2% yn y Gronfa Bensiwn Twf Amrywiol yn erbyn perfformiad meincnodi o 0.5%. Nid oes data ar gyfer cyfnodau hirach ar gael oherwydd mai ym mis Mai 2009 yn unig y dechreuodd y gronfa.

Adolygodd yr Ymddiriedolwyr eu strategaeth fuddsoddi ym mis Hydref 2010 ac ar ôl cael cyngor proffesiynol penderfynwyd y dylid cadw'r holl gyfraniadau ar gyfer y cyfnod rhwng mis Tachwedd 2010 a mis Mawrth 2011 ar ffurf arian

parod. Gwnaethpwyd y penderfyniad hwn er mwyn cyllido buddion cyfandaliad posibl o ymddeoliadau hysbys pan ddiddymwyd y Cynulliad ar 1 Ebrill 2011.

**Rheolwr Buddsoddi**

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi penodi Baillie Gifford Life Ltd fel Rheolwyr y Gronfa ar gyfer y Cynllun ac mae'r Ymddiriedolwyr wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb o reoli'r buddsoddiadau iddynt.

Mae buddsoddiadau'n cael eu gwneud drwy bolisi pensiwn Baillie Gifford Life Ltd. Prif nodwedd y polisi yw bod y buddiannau a geir yn hollol ddibynnol ar berfformiad buddsoddi asedau'r Gronfa.

Telir ffi rheoli i Baillie Gifford Life Ltd ar sail canran o gyfanswm gwerth y gronfa ar y farchnad bob blwyddyn: 0.45% yng nghyswllt y Gronfa Bensiwn Reoledig a 0.25% yng nghyswllt y Gronfa Bensiwn Fynegrifol, a 0.45% yng nghyswllt y Gronfa Bensiwn Twf Amrywiol tan 1 Mehefin 2012 pan fydd yn dychwelyd i'r tâl rheoli blynyddol safonol, sef 0.65% ar hyn o bryd, ac mae'r ffi'n cael ei ddidynnu o werth y Gronfa bob mis.

Mae'r holl asedau yn y cronfeydd mynegrifol sy'n cael eu gweithredu gan Baillie Giford Life Ltd yn eiddo i gwmni yswiriant, sef Baillie Gifford Life, a chânt eu cofrestru yn enw Baillie Gifford Life.

Nid oes gan y Cynllun geidwad gan ei fod yn buddsoddi mewn unedau mewn polisi bywyd nad oes angen ceidwad arno. Ceidwad Baillie Gifford Life Ltd yw Bank of New York, One Canada Square, LONDON, E14 5AL.

Mae gan Baillie Gifford bolisïau mewnol yn ymwneud â llywodraethu corfforaethol, buddsoddi gan ddangos cyfrifoldeb cymdeithasol, ymgysylltiad Cwmni a gweithredu hawliau pleidleisio. Yn ystod y flwyddyn bu Baillie Gifford yn ymwneud â'r cwmnïau a ganlyn.

- **Llywodraethu Corfforaethol** - Asahi Breweries, BG Group, BHP Billiton, BHP Billiton (UK), Banco Santander, Brambles Limited, CNOOC, Inpex Corporation, Inpex Corporation, Johnson Matthey, Michael Page International, Nifco, Prudential, Royal Dutch Shell, Sodexo, Sumitomo Realty & Development, Tokyo Tatemono, Yamaha Motor

- **Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol** - BG Group, Banco Santander, Bunzl, Celesio AG, Lonmin, Unilever, Vodafone Group

- **Taliadau Gweithredol** - Aristocrat Leisure, BHP Billiton, BHP Billiton (UK), Brambles Limited, British American Tobacco, Capita Group, Capita Group,

Cobham, Hays, IG Group Holdings, Intertek Group, Lonmin, Meggitt, Pearson, Petrofac Limited, Petrofac Limited, Rightmove, Rolls-Royce Group, Royal Dutch Shell, Standard Chartered, Tesco (UK), Tesco (UK), Weir Group

- **Cynigion AGM neu EGM** - Amlin, Apple, Ashtead Group, Bodycote, British American Tobacco, Bunzl, Capita Group, Chugai Pharmaceutical, Cobham, Deutsche Boerse, Electra Private Equity, Foster's Group, Genus, GlaxoSmithKline, HSBC Holdings, Helical Bar, Hiscox, Hong Kong Exchanges & Clearing, IG Group Holdings, IMI (UK), Imperial Tobacco Group, Inpex Corporation, International Personal Finance (UK), Intertek Group, Iron Mountain, JZ Capital Partners Limited, James Hardie, Johnson Matthey, Jyske Bank AS, Keihin Corporation, L'Oreal, LMS Capital, Linear Technology Corporation, Meggitt, Monsanto Company, Namco Bandai Holdings Inc. , Nifco, Nissan Motor, Oracle Corporation, Pearson, Rightmove, Rolls-Royce Group, Royal Dutch Shell, SABMiller, Sage Group (UK), Scottish & Southern Energy, Serco Group, Shaftesbury, Standard Chartered, Sumitomo Realty & Development, Ultra Electronics Holdings, Wacom Co. Ltd., Walt Disney Company (The), Weir Group, Wesfarmers, Wood, John Group, Woolworths

Mae adroddiad buddsoddi'n ymwneud â'r polisïau buddsoddi yn ystod y flwyddyn ac adolygiad o berfformiad buddsoddiadau'r Gronfa yn ystod y flwyddyn, a natur, trefniadau a diogelwch yr asedau, ynghyd â'r sefyllfa o ran eu gwerthu ar y farchnad stoc i'w cael ar dudalennu 9 i 14. Gwerth y Gronfa Reoledig ar y farchnad ar 31 Mawrth 2011 oedd £12,844,099, sef twf o £1,332,791 dros y flwyddyn; gwerth y Gronfa Bensiwn Fynegrifol ar y farchnad ar 31 Mawrth 2011 oedd £1,487,096, sef twf o £98,526; gwerth y Gronfa Bensiwn Twf Amrywiol ar y farchnad oedd £3,798,422, sef twf o £313,619. Caiff y gwerthoedd hyn eu datgelu yn Nodyn 7 sy'n cyd-fynd â'r cyfrifon hyn.

Nid oedd unrhyw newid yng ngwerth gwaelodol buddsoddiadau'r Cynllun pan ddaeth busnes i ben ar 17 Mehefin 2011.

**William Graham**
**Aelod Cynulliad**
**Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr**
(ar ran yr Ymddiriedolwyr)
**Dyddiad:** 20 Mehefin 2011

**Gareth Jones**
**Ymddiriedolwr**

## Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Adroddiad Buddsoddi ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi paratoi Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi, sy'n nodi eu polisïau buddsoddi a'u strategaeth ar gyfer eu cyflawni, ac mae copi ar gael ar gais.

Mae'r cyfrifoldeb o reoli buddsoddiadau o ddydd i ddydd wedi'i ddirprwyo i Baillie Gifford & Co, sy'n gweithredu yn unol â chanllawiau a chyfyngiadau a nodir yn y Cytundeb Polisi Bywyd ac yn ôl cyfarwyddiadau a roddir gan yr Ymddiriedolwyr o bryd i'w gilydd.

### Targed Buddsoddi

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi pennu nod perfformiad ar gyfer y rheolwyr buddsoddi sy'n ystyried proffil atebolrwydd y Cynllun a lefel y risg y mae'r Ymddiriedolwyr yn ei hystyried sy'n briodol. Mae'r cynllun yn buddsoddi yng Nghronfeydd Pensiwn Rheoledig, Mynegrifol 'Gilt Plus' a Thwf Amrywiol Baillie Gifford.

### Cronfa Bensiwn Reoledig Baillie Gifford

Targed cyfredol Cronfa Bensiwn Reoledig Baille Gifford yw perfformio 1.0 -1.5% (gros) yn well bob blwyddyn na Chronfa Gronedig Ganolrif Gytbwys CAPS dros gyfnodau treigl o 3 blynedd.

### Cronfa Bensiwn Fynegrifol 'Gilt Plus' Baillie Gifford

Targed cyfredol Cronfa Bensiwn Fynegrifol 'Gilt Plus' Baille Gifford yw perfformio 0.75% (gros) yn well bob blwyddyn na'r elw ar Fynegai Gilt Fynegrifol 5 mlynedd Actiwarau'r FT dros gyfnodau treigl o 3 blynedd. O 10 Rhagfyr 2010 ymlaen, y targed fydd perfformio 1.5% (gros) yn well bob blwyddyn na'r elw ar Fynegai Gilt Fynegrifol 5 mlynedd Actiwarau'r FT dros gyfnodau treigl o 3 blynedd.

### Cronfa Bensiwn Twf Amrywiol Baillie Gifford

Targed cyfredol Cronfa Bensiwn Twf Amrywiol Baillie Gifford yw perfformio 3.5% (ffioedd net) yn well bob blwyddyn na chyfradd sylfaenol y DU dros gyfnod treigl o 5 mlynedd gydag anweddolrwydd blynyddol o lai na 10%.

## Dosraniad yr Asedau

Dyma ddosraniad asedau'r Gronfa ar 31 Mawrth:

| | 2010<br>% | 2011<br>% |
|---|---|---|
| Cronfa Bensiwn Reoledig | 74.2 | 70.5 |
| Cronfa Bensiwn Fynegrifol 'Gilt Plus' | 8.2 | 8.3 |
| Cronfa Bensiwn Twf Amrywiol | 17.6 | 21.2 |
| **CYFANSWM** | **100** | **100** |

Dyma ddosraniad asedau'r Gronfa Bensiwn Reoledig ar 31 Mawrth 2011:

| | 2010<br>% | 2011<br>% |
|---|---|---|
| **Ecwitïau'r DU** | 30.8 | 33.7 |
| **Ecwitïau Tramor** | | |
| Gogledd America | 15.0 | 16.3 |
| Ewrop | 19.7 | 19.3 |
| Asia a'r Môr Tawel | 12.9 | 11.3 |
| Marchnadoedd Newydd | 12.7 | 10.7 |
| **Llog Sefydlog** | 8.5 | 3.9 |
| **Mynegrifol** | - | 0.1 |
| **Arian Parod ac Adneuon** | 0.4 | 4.7 |
| **CYFANSWM** | **100** | **100** |

Dyma ddosraniad asedau'r Gronfa Bensiwn Fynegrifol 'Gilt Plus' ar 31 Mawrth 2011:

| | 2010<br>% | 2011<br>% |
|---|---|---|
| **Bondiau'r DU** | 4.0 | 3.6 |
| **Bondiau Tramor** | 2.1 | 3.1 |
| **Mynegrifol** | | |
| DU | 89.8 | 92.4 |
| Tramor | 2.1 | - |
| **Arian Parod ac Adneuon** | 1.8 | 0.9 |
| **Blaen-gontractau Arian Cyfred** | 0.2 | - |
| **CYFANSWM** | **100** | **100** |

Dyma ddosraniad asedau'r Gronfa Bensiwn Twf Amrywiol ar 31 Mawrth 2011:

| | **2010** % | **2011** % |
|---|---|---|
| Ecwiti rhestredig | 10.5 | 7.3 |
| Ecwiti preifat | 7.3 | 7.3 |
| Eiddo | 5.3 | 2.3 |
| Bondiau cynnyrch uchel | 9.4 | 5.1 |
| Bondiau graddfa fuddsoddi | 9.6 | 6.3 |
| Strwythuredig | 4.0 | 5.8 |
| Coedwigaeth | 2.2 | 0.3 |
| Nwyddau | 1.9 | 5.3 |
| Bondiau marchnadoedd newydd | 13.3 | 12.0 |
| Seilwaith | 4.2 | 5.7 |
| Bondiau seilwaith | 5.1 | 2.1 |
| Bondiau'r llywodraeth | - | 5.6 |
| Enillion absoliwt | 7.7 | 11.6 |
| Cyllid cyfreithia | 3.2 | 1.8 |
| Yswiriant-gysylltiol | 11.6 | 10.4 |
| Troshaenu arian parod gweithredol | 0.3 | 0.0 |
| Arian parod | 4.4 | 11.1 |
| **Cyfanswm** | **100** | **100** |

**Cefndir yr Economi a'r Farchnad**
**– 12 mis tan 31 Mawrth 2011.**

Er gwaethaf y nerfusrwydd ymhlith buddsoddwyr mewn perthynas â chryfder yr adferiad byd-eang, effaith y daeargryn dinistriol a'r tsunami yn Japan a'r aflonyddwch sy'n parhau yng ngogledd Affrica a'r Dwyrian Canol, daeth llawer o newyddion calonogol hefyd i'r amlwg yn ystod y cyfnod, a chafwyd elwau cadarnhaol o farchnadoedd stoc ledled y byd.

Ni ddaeth nifer o'r bygythiadau economaidd a ragwelwyd yn wir. Llwyddodd Tsieina i osgoi'r caledi a ragwelwyd gan nifer o arsyllwyr, ac ni effeithiwyd ar y Deyrnas Unedig a'r Unol Daleithiau gan ail ddirwasgiad, serch y ffaith bod pwysau chwyddiant yn parhau i gynyddu. Cafodd gwledydd yn ardal yr Ewro ganlyniadau cymysg, gyda phroblemau economaidd enbyd Groeg, Iwerddon, Sbaen a Phortiwgal yn cyferbynu â chryfder yr Almaen, a welodd y perfformiad economaidd chwarterol gorau ers yr ail-uno ugain mlynedd yn ôl.

Er bod y marchanadoedd economaidd newydd yn parhau i berfformio'n dda, daeth buddsoddwyr tramor yn fwyfwy gwyliadwrus ynghylch y rhagolygon yn yr ardaloedd hynny, a dechreuodd rhai ohonynt godi arian o Tsieina, Brasil ac India, gwledydd sydd wedi gweld buddsoddiad sylweddol yn ystod y cyfnod. Fodd bynnag, serch y pryderon hyn, roedd elw o'r buddsoddiadau yn yr ardaloedd hyn yn parhau i fod yn bositif.

Yn ystod y 12 mis hyd at ddiwedd mis Mawrth, cododd marchnad ecwiti y DU 9% a pherfformiodd marchnadoedd tramor yn dda hefyd. Enillodd Ewrop 7% i fuddsoddwyr yn y DU tra cynyddodd yr Unol Daleithiau 10% o ran gwerth sterling. Ar yr un pryd, gorffennodd Asia Ddatblygiedig (yn cynnwys Japan) y cyfnod 5% yn uwch ac adlewyrchwyd cryfder y marchnadoedd newydd gan elw o 12%.

Elwodd y marchnadoedd bond ar sawl achlysur wrth i rai buddsoddwyr fentro i'r dosbarth asedau yn wyneb y ffaith bod pryderon ynghylch torri'r record o ran diffygdalu bondiau corfforaethol wedi tawelu. Ym mis Ionawr, cyhoeddwyd Bond Cyfleuster Sefydlogrwydd Ariannol Ewropeaidd cyntaf yn llwyddiannus. Caiff y bond ei warantu gan amryw o aelod-wladwriaethau Ewropeaidd ac mae'n fodd i godi arian a darparu benthyciadau i wledydd yn ardal yr Ewro sy'n cael trafferthion. Fodd bynnag, cafwyd gostyngiadau mewn rhai marchnadoedd bondiau llywodraeth wrth i fuddsoddwyr gael eu hargyhoeddi fwyfwy o'r adferiad economaidd byd-eang, gan gynyddu eu parodrwydd i fod yn agored i ecwitïau. Yn y cyd-destun hwn, cododd giltiau'r DU 5% yn y cyfnod a chododd bondiau corfforaethol y DU 5%, tra roedd bondiau llywodraethau tramor wedi codi 2% yn nhermau arian lleol.

Er bod amgylchiadau ariannol ledled y byd yn parhau i fod yn llac, mae pwysau yn cynyddu ar gyfraddau llog i godi mewn rhai economïau datblygedig. Yn y cyfamser, mae'r ansicrwydd economaidd cyffredinol mewn gwledydd yn ardal yr Ewro hefyd yn bygwth parhau ac mae hyn yn debygol o achosi ansicrwydd pellach i fuddsoddwyr.

O ran portffolios, rydym yn parhau i ganolbwyntio ar y dull dadansoddi o'r gwaelod i fyny er mwyn sicrhau, cyhyd ag y bo modd, fod y busnesau rydym yn buddsoddi ynddynt yn cynnig rhagolygon da o ran cynnydd yn eu henillion. Rydym yn dod o hyd i gyfleoedd da i fuddsoddi mewn cwmnïau sydd naill ai yn y marchnadoedd newydd neu sy'n elwa o'r twf yn y marchnadoedd hynny. Rydym hefyd wedi buddsoddi mewn nifer o gwmnïau sydd, yn ein barn ni, yn cynnig rhagolygon ardderchog yn yr hirdymor, ond nad ydynt wedi cymryd rhan lawn yn rali'r farchnad ecwiti yn y gorffennol ac sydd yn awr yn edrych yn addawol iawn o'u cymharu â chwmnïau eraill. O ran marchnadoedd incwm sefydlog, rydym yn parhau i ffafrio bondiau corfforaethol yn hytrach na bondiau'r llywodraeth.

**Perfformiad (ar ôl didynnu ffioedd rheoli net)**

Dyma'r elw net a gynhyrchodd y Cronfeydd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011:

| | 1 flwyddyn<br>% | 3 blynedd<br>% y fl | 5 mlynedd<br>% y fl |
|---|---|---|---|
| Y Gronfa Bensiwn Reoledig | 11.6 | 9.7 | 6.3 |
| *Cronfa Gronedig Ganolrif CAPS* | *7.8* | *6.2* | *4.3* |
| Y Gronfa Bensiwn Fynegrifol 'Gilt Plus' | 7.3 | 5.0 | 5.9 |
| *FTA Mynegrifol y Llywodraeth dros 5 mlynedd* | 6.7 | 4.6 | 5.9 |
| Cronfa Bensiwn Twf Amrywiol | 9.2 | - | - |
| *Cyfradd sylfaenol y DU* | *0.5* | - | - |

**Y Daliadau Mwyaf**

Ar 31 Mawrth 2011, dyma'r deg daliad mwyaf, sy'n cynrychioli 26.3% o gyfanswm gwerth y Gronfa Bensiwn a Reolir:

| | **% o'r portffolio** |
|---|---|
| Cronfa Dwf Marchnadoedd Newydd Baillie Gifford | 10.7 |
| Cronfa Cwmnïau Llai Prydain Baillie Gifford | 2.2 |
| Baillie Gifford Global Bond Fund | 1.8 |
| Atlas Copco | 1.8 |
| Svenska Handelsbanken | 1.8 |
| GBL | 1.7 |
| Nestlé R | 1.7 |
| BG Group | 1.6 |
| Total | 1.5 |
| Rio Tinto | 1.5 |

**Marchnadwyedd**

Mae buddsoddiadau'n cynnwys unedau mewn cyfryngau buddsoddi cyfunol a reolir gan Baillie Gifford, ac ystyrir bod y daliadau'n werthadwy.

**Polisi Amgylcheddol a chymdeithasol a pholisi llywodraethu Baillie Gifford**

Mae Baillie Gifford yn cydnabod bod hawliau a chyfrifoldebau arbennig yn cyd-fynd â bod yn berchen ar gyfranddaliadau cwmni ar ran cleientiaid. Ar yr un pryd, mae materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethiant, a'r modd y caiff y materion hyn eu rheoli, yn rhan annatod o gynaliadwyedd busnes. Oherwydd hyn, mae Baillie Gifford yn ystyried materion o'r fath wrth ddadansoddi ac adolygu cwmni, ac mae Tîm Llywodraethu Corfforaethol penodol hefyd yn ysgwyddo'r cyfrifoldebau sydd ynghlwm â bod yn berchen ar gyfranddaliadau ar ran ein cleientiaid.

Fel rheolwyr gweithredol, rhan allweddol o'n strategaeth fuddsoddi yw asesu safon rheolaeth cwmnïau, ac yn benodol agweddau'r rheolwyr at gyfranddalwyr. Wrth gyfuno gwybodaeth busnes anariannol â gwybodaeth ariannol, ceir dealltwriaeth werthfawr o safon y rheoli'n gyffredinol. O gofio bod materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethiant yn faterion tymor canolig a hirdymor, a bod ein cleientiaid yn buddsoddi yn yr hirdymor, mae'n bwysig ein bod yn ystyried agweddau cwmnïau tuag at y materion hyn fesul achos.

Mae'n hagwedd tuag at y materion cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n cyd-fynd â pherchnogaeth cyfranddaliadau'n seiliedig ar ymgysylltu a thrafod yn hytrach nag allgáu. Drwy ddefnyddio ymchwil mewnol ac allanol, rydym wedi nodi materion allweddol yn ymwneud â chyfranddaliadau'n cleientiaid ac wedi'u trafod â'r cwmnïau dan sylw. Yn y modd hwn, rydym yn annog cwmnïau i fonitro ac i ddelio â'r risgiau a'r cyfleoedd amgylcheddol a chymdeithasol perthnasol sy'n wynebu eu busnesau. Credwn y gall y broses hon gyfrannu at werth buddsoddiadau ein cleientiaid yn yr hirdymor.

20 Mai 2011

## CYNLLUN PENSIWN AELODAU CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

## DATGANIAD YR ACTIWARI – AM Y FLWYDDYN ARIANNOL HYD AT 31 Mawrth 2011

Caiff Cynllun Pensiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei eithrio o'r gofyniad fel y'i nodir yn Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Datgelu Gwybodaeth) 1996 i baratoi adroddiad a chyfrifon wedi'u harchwilio o fewn saith mis ar ôl diwedd y flwyddyn gyfrifo. Fodd bynnag, bwriad yr Ymddiriedolwyr yw cydymffurfio ag ethos y ddeddfwriaeth, ac yn hynny o beth, mae'r datganiad hwn wedi'i baratoi yn yr un modd â phe byddai'r ddeddfwriaeth yn cael ei gweithredu.

**Asesiad Actiwaraidd.**

Cynhaliwyd asesiad actiwaraidd ffurfiol o Gynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynllun) gyda dyddiad gweithredol o 1 Ebrill 2008, a'r prif amcan oedd gwneud argymhelliad i Ymddiriedolwyr y Cynllun ynghylch lefel briodol cyfradd cyfraniad y cyflogwr ar ôl y dyddiad hwnnw. Er bod swm cyfraniadau aelodau wedi'i bennu yn y Rheolau, mae cyfradd cyfraniad y cyflogwr yn cael ei bennu fel canran y cyflog sydd ei hangen i dalu balans y gost gyda'r bwriad o sicrhau y telir am fuddiannau'r Cynllun yn ystod gwasanaeth gweithredol yr Aelod â Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Dull**

Ar gyfer prisiad actiwaraidd 2008, defnyddiwyd y dechneg actiwaraidd safonol, sef y *Dull Rhagamcanu Unedau*, i gyfrifo gwerth y rhwymedigaethau y disgwylir iddynt gronni o dan y Cynllun yn ystod y tair blynedd ar ôl y dyddiad prisio. Mynegir *Cyfradd Cyfraniad Safonol* y Dull Rhagamcanu Unedau fel gwerth y buddiannau a gronnir yn ystod y cyfnod rheoli wedi ei rannu â gwerth presennol enillion aelodau yn ystod y cyfnod hwn. Disgwylir i'r dull prisio hwn ddarparu cyfradd cyfraniad safonol lled sefydlog ar gyfer prisiadau actiwaraidd olynol cyhyd ag y bo'r dosbarthiad o aelodau'r Cynllun o ran oedran/rhyw/cyflog yn aros yn lled gyson.

Wedyn, cymharwyd gwerth y rhwymedigaethau a gronnwyd hyd at y dyddiad prisio â gwerth asedau'r Cynllun ar yr un dyddiad. Adlewyrchwyd y diffyg o £0.04m fel addasiad i'r Gyfradd Cyfraniad Safonol. Cyfradd y cyfraniadau a argymhellir gan y cyflogwr yw'r Gyfradd Cyfraniad Safonol wedi'i haddasu ar ôl i'r cyfraniadau sy'n daladwy i'r Cynllun gan yr aelodau gael eu tynnu ohoni.

**Tybiaethau**

Er mwyn cyfrifo cost buddiannau'r Cynllun, mae'n rhaid gwneud rhai tybiaethau actiwaraidd o ran incwm disgwyliedig y Cynllun yn y dyfodol a'r budd-daliadau a delir ganddo. Mae'r Gyfradd Cyfraniad Safonol yn golygu y byddai'n ddigonol i gyllido'r buddiannau a gronnir ar ôl y dyddiad prisio os yw'r profiad yn unol â'r tybiaethau a wnaethpwyd. Efallai y bydd angen addasu'r Gyfradd Cyfraniad Safonol yn y dyfodol i ystyried unrhyw wahaniaeth rhwng profiadau'r Cynllun a'r tybiaethau cyllid.

Dangosir y prif dybiaethau a ddefnyddiwyd ym mhrisiad actiwaraidd 2008 i gyfrifo cost buddiannau'r Cynllun yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| Adenillion buddsoddiad, net o dreuliau, yn fwy na chwyddiant cyflog | 2% y flwyddyn |
| Adenillion buddsoddiad, net o dreuliau, yn fwy na chwyddiant pris | 3.5% y flwyddyn |
| Hirhoedledd pensiynwyr – yn seiliedig ar dablau safonol a gyhoeddir gan y proffesiwn actiwaraidd (tablau "PMA 92" gyda gwelliannau i'r dyfodol yn unol â phrif ragamcanion yn seiliedig ar boblogaeth 2006 a gynhyrchwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol) | |

Nodir manylion pellach am y dulliau a'r tybiaethau a ddefnyddir yn yr adroddiad ar yr asesiad actiwaraidd fel ag yr oedd ar 1 Ebrill 2008, dyddiedig 26 Mawrth 2009.

**Cyfradd Cyfraniadau**


Mae Aelodau'n talu cyfraniadau cyfwerth â 10% o'u cyflog pensiynadwy os ydynt yn cronni un rhan o ddeugain o'u tâl pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth, neu 6% o'u tâl pensiynadwy os ydynt yn cronni un rhan o hanner cant. Gan ddefnyddio'r dull a'r tybiaethau uchod, yr asesiad ar gyfer cyfraniad y cyflogwr oedd 23.8% o gyflog pensiynadwy o 1 Ebrill 2009 ymlaen. Mae'r gyfradd hon yn cynnwys darpariaeth lawn o ran budd-dâl marwolaeth, gan gynnwys cynnydd yn y buddiannau hyn ers i'r cynllun ddechrau, a hefyd lwfans ar gyfer costau gweinyddu.

**Diogelwch yr Hawliau Arfaethedig**

Yn fy marn i, mae adnoddau'r cynllun yn debygol, o dan amgylchiadau arferol, o gwrdd â rhwymedigaethau llawn y cynllun fel y mae. Wrth fynegi'r farn hon, rwyf wedi cymryd yn ganiataol y bydd cyfraniadau'r cyflogwr a'r aelod yn cael eu talu i'r Cynllun fel y disgrifir yn y paragraff "Cyfradd Cyfraniadau" yn unol â'r adolygiad yn ytsod yr asesiadau actiwaraidd.

**Asesiad nesaf yr Actiwari .**

Dyddiad gweithredol prisiad ffurfiol nesaf y Cynllun gan yr actiwari yw 1 Ebrill 2011. Prif ddiben y prisiad hwnnw yw asesu a yw cyfradd cyfraniadau'r cyflogwr a argymhellwyd yn ddigonol, gan ystyried yr holl ffactorau perthnasol ers y prisiad blaenorol.



I A Boonin
Cymrawd Athrofa a Chyfadran yr Actiwariaid
11 Mai 2011

Adran Actiwari'r Llywodraeth
Finlaison House
15-17 Furnival Street
London EC4A 1AB

## DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R YMDDIRIEDOLWYR

Yr Ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am y datganiadau ariannol. Nid yw'n ofynnol trwy statud i'r Ymddiriedolwyr gydymffurfio â rheoliadau cynllun pensiwn, ond maent wedi cytuno i wneud hynny pan fo hynny'n bosibl oherwydd bod hynny'n arfer da. Yn ôl y rheoliadau, mae'n rhaid i'r Ymddiriedolwyr sicrhau bod datganiadau ariannol archwiliedig ar gyfer bob blwyddyn o'r Cynllun ar gael i aelodau'r cynllun, buddiolwyr a rhai partïon eraill a bod yn rhaid i'r datganiadau hyn:

- roi darlun cywir a theg o drafodion ariannol y cynllun yn ystod blwyddyn y cynllun ac o swm a sefyllfa'r asedau a'r rhwymedigaethau ar ddiwedd y flwyddyn honno, ar wahân i'r cyfrifoldebau i dalu pensiynau a buddion ar ôl diwedd blwyddyn y cynllun, ac

- cynnwys y wybodaeth benodol yn yr Atodlen i'r Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gofyniad i gael Cyfrifon Archwiliedig a Datganiad gan yr Archwilydd) 1996, gan gynnwys datganiad yn nodi a yw'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi yn unol â'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir 'Adroddiadau Ariannol o Gynlluniau Pensiwn'.

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi goruchwylio'r gwaith o baratoi'r datganiadau ariannol ac maent wedi cytuno ar bolisïau cyfrifyddu addas, sydd i'w gweithredu'n gyson gan wneud unrhyw amcangyfrifon a dod i unrhyw farn ar sail ddarbodus a rhesymol.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am sicrhau y cedwir at reolau'r Cynllun ac argymhellion yr Actiwari o ran y cyfraniadau sy'n daladwy i'r Cynllun neu gyfraniadau gan, neu ar ran, y cyflogwr ac aelodau gweithredol y cynllun a'r dyddiadau y mae'r cyfraniadau hyn i'w talu. Mae'r Ymddiriedolwyr hefyd yn gyfrifol am gadw cofnod o gyfraniadau a dderbyniwyd mewn perthynas ag unrhyw aelod gweithredol o'r cynllun ac am sicrhau bod cyfraniadau'n cael eu gwneud i'r Cynllun yn unol ag argymhellion Actiwari'r Cynllun.

Hefyd mae gan yr Ymddiriedolwyr gyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau bod cofnodion cyfrifyddu digonol yn cael eu cadw ac am gymryd y camau sy'n rhesymol agored iddynt i ddiogelu asedau'r cynllun ac i atal a darganfod unrhyw dwyll neu anghysonderau eraill, gan gynnwys cynnal dulliau rheoli mewnol priodol.

**Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Crynodeb o'r Cyfraniadau a dalwyd yn y flwyddyn**

Dyma'r cyfraniadau a dalwyd yn ystod y flwyddyn i'r cynllun gan y Cyflogwr yn unol ag argymhellion yr Actiwari:

| | 2010-11 | 2009-10 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Cyfraniadau arferol y cyflogwr | 965,621 | 969,406 |
| Cyfraniadau arferol y Gweithiwr Cyflogedig | 388,841 | 392,806 |
| Cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol y gweithiwr i brynu blynyddoedd ychwanegol | 13,442 | 13,198 |
| Cyfanswm y cyfraniadau | 1,367,904 | 1,375,410 |





**William Graham**
**Aelod Cynulliad**
**Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr**

**Gareth Jones**
**Ymddiriedolwyr**

(ar ran yr Ymddiriedolwyr)

**Dyddiad:** 20 Mehefin 2011

Cysoni'r cyfraniadau a dalwyd, a welir uchod, a'r cyfraniadau a nodwyd yn y datganiadau ariannol:

| | 2010-11 | 2009-10 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Cyfraniadau a dalwyd: | 1,367,904 | 1,375,410 |
| Llai dyledwr agoriadol: | (115,122) | (109,678) |
| Ynghyd â'r dyledwr cloi: | 113,128 | 115,122 |
| Cyfraniadau a nodwyd yn y datganiadau ariannol: | 1,365,910 | 1,380,854 |

**Datganiad yr Archwilydd Annibynnol o Gyfraniadau, dan Reoliad 4 y Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gofyniad i gael Cyfrifon Archwiliedig a Datganiad gan yr Archwilydd) 1996, i Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.**

Yr wyf wedi archwilio'r crynodeb o'r cyfraniadau i Gynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru am flwyddyn y cynllun a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011, a nodir ar dudalen 19.

**Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a'r Archwilwyr**


Fel y disgrifir ar dudalen 18, mae Ymddiriedolwyr y cynllun yn gyfrifol am sicrhau bod rhestr o gyfraniadau wedi'i pharatoi, ei chynnal a'i hadolygu ac o bryd i'w gilydd, sy'n nodi'r cyfraddau a'r dyddiadau dyledus yng nghyswllt rhai cyfraniadau sy'n daladwy i'r cynllun gan neu ar ran y cyflogwr ac aelodau gweithredol y cynllun. Mae'r Ymddiriedolwyr hefyd yn gyfrifol am gadw cofnod o gyfraniadau a dderbyniwyd mewn perthynas ag unrhyw aelod gweithredol o'r cynllun ac am sicrhau bod cyfraniadau'n cael eu gwneud i'r Cynllun yn unol ag argymhellion yr Actiwari fel y nodir yn Natganiad yr Actiwari ar dudalennau 15 a 17. Fy nghyfrifoldeb i yw darparu datganiad am gyfraniadau a dalwyd yn unol ag argymhellion yr Actiwari ac i roi fy marn i chi.

**Sail y datganiad am gyfraniadau**

Cynlluniais a chyflawnais fy ngwaith er mwyn cael y wybodaeth a'r esboniadau a ystyriwn yn angenrheidiol er mwyn rhoi sicrwydd rhesymol fod y cyfraniadau a nodwyd yn y crynodeb o gyfraniadau wedi'u talu yn unol â'r gofynion perthnasol. I'r perwyl hwn roedd y gwaith a wneuthum yn cynnwys archwilio, ar sail profion, y dystiolaeth a oedd yn gysylltiedig â swm y cyfraniadau a dalwyd i'r cynllun a phryd y gwnaed y taliadau hynny, o dan y rhestr o gyfraniadau. Mae gofyn i'm datganiad am gyfraniadau gyfeirio at yr achosion hynny o beidio â chydymffurfio â'r rhestr o gyfraniadau, a ddaw i'm sylw wrth i mi ymgymryd â'm gwaith.

**Datganiad am gyfraniadau**

Yn fy marn i mae cyfraniadau i'r cynllun yn y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011, fel yr adroddwyd yn y crynodeb o gyfraniadau, wedi'u talu yn unol â Datganiad yr Actiwari a ardystiwyd gan Actiwari'r Cynllun ar 11 Mai 2011.



Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
22 Mehefin 2011

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Cyfrifoldeb y Cynulliad yw cynnal a chadw a sicrhau cywirdeb gwefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru; nid yw'r gwaith y mae'r archwilydd yn ymgymryd ag ef yn ystyried y materion hyn ac, oherwydd hyn, nid yw'r archwilydd yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi'u gwneud i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno am y tro cyntaf ar y wefan.

## DATGANIAD RHEOLAETH FEWNOL

### Cwmpas y cyfrifoldeb

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb fel Ymddiriedolwyr i sicrhau bod system reolaeth fewnol effeithiol yn cael ei chynnal a'i gweithredu sy'n helpu i gyflawni amcanion y Cynllun a hefyd yn diogelu asedau'r cynllun.

### Diben y system rheolaeth fewnol

Gall y system ddarparu sicrwydd rhesymol, ond nid sicrwydd llwyr, bod asedau yn cael eu diogelu, bod trafodion yn cael eu hawdurdodi a'u cofnodi'n gywir a bod camgymeriadau neu afreoleidd-dra difrifol yn cael eu hatal neu'n cael eu datgelu yn gyflym.

Mae'r system reolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus i geisio nodi'r prif risgiau sy'n bygwth nodau ac amcanion y Cynllun, i bwyso a mesur natur a maint y risgiau hynny ac i'w rheoli. Mae'r system wedi'i seilio ar fframwaith o wybodaeth reoli reolaidd, gan gynnwys cyngor annibynnol gan gynghorwyr proffesiynol y Gronfa, gweithdrefnau gweinyddol priodol a system ddirprwyo ac atebolrwydd. Roedd yr holl weithdrefnau priodol yn eu lle yn ystod 2010-11.

### Y gallu i ymdopi â risg

Mae'r cyfrifoldeb o weinyddu a chadw cyfrifon o ddydd i ddydd wedi'i ddirprwyo i'r Ysgrifenyddiaeth ac mae'r Ymddiriedolwyr yn dibynnu ar weithdrefnau rheolaeth fewnol y Cynulliad, sy'n rhan o'r system reolaeth fewnol a weithredir gan Gomisiwn y Cynulliad.

### Fframwaith risg a rheoli

Mae angen adroddiadau rheolaidd arnom gan yr ysgrifenyddiaeth ar y camau y maent yn eu cymryd er mwyn rheoli risgiau o fewn eu meysydd cyfrifoldeb gan gynnwys adroddiadau cynnydd.

Yn ystod 2010-11, rydym wedi:

- cadw cofrestr risg sy'n cael ei hadolygu'n rheolaidd ym mhob un o gyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr;
- trefnu bod yr ysgrifenyddiaeth yn paratoi adroddiadau ar weithgarwch rheolaeth fewnol; ac
- wedi adolygu'r adroddiad annibynnol ar Reolaeth Fewnol Baillie Gifford yn ystod y cyfnod hyd at 30 Ebrill 2010 er mwyn rhoi sicrwydd bod rheolaeth fewnol rheolwr y gronfa yn bodloni'r safon ofynnol.

- derbyn adroddiadau chwarterol gan Baillie Gifford sy'n cael eu trafod yng nghyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr. Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys adroddiad rheolwr cyllid; manylion perfformiad y buddsoddiad; rhestr o ddaliadau cyfredol; a gwybodaeth cyfrifo a llywodraethu corfforaethol.

- adolygu effeithiolrwydd parhaus y systemau diogelu gwybodaeth.

**Adolygu Effeithiolrwydd**

Mae Archwilwyr Mewnol Comisiwn y Cynulliad yn ein helpu i ddatblygu a chynnal y system rheolaeth fewnol ac mae gwaith yr archwilwyr allanol yn sail i'n hadolygiad o effeithiolrwydd y system hon. Caiff y sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac mewn adroddiadau eraill eu hystyried.





**William Graham**
**Aelod Cynulliad**
**Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr**
(Ar ran yr Ymddiriedolwyr)

**Gareth Jones**
**Ymddiriedolwr**

**Dyddiad: 20 Mehefin 2011**

**Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Ymddiriedolwyr ac Aelodau Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Rwy'n tystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011, sy'n cynnwys cyfrif y gronfa, y datganiad asedau net a'r nodiadau cysylltiedig. Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi'u paratoi ar sail y polisïau cyfrifyddu a nodir yn y nodiadau cysylltiedig.

**Cyfrifoldebau arbennig yr Ymddiriedolwyr a'r Archwilwyr**

Fel y disgrifir yn y Datganiad o gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr, mae Ymddiriedolwyr y cynllun yn gyfrifol am gael adroddiad blynyddol, gan gynnwys Datganiadau Ariannol wedi'u harchwilio a'u paratoi'n unol â chyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Ymarferion Cyfrifyddu Derbyniol Cyffredinol y Deyrnas Unedig).

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r Datganiadau Ariannol yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol a gofynion rheolaethol a Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon).

Cyflwynaf i chi fy marn ar y Datganiadau Ariannol gan nodi p'un a ydynt yn rhoi darlun cywir a theg ac yn cynnwys y wybodaeth a nodir yn yr atodlen i Reoliadau Cynlluniau Pensiynau Galwedigaethol (Gofyniad i dderbyn Cyfrifon Archwiliedig a Datganiad gan yr Archwilydd) 1996 a wnaed o dan Ddeddf Pensiynau 1995. Byddaf hefyd yn dweud wrthych os nad wyf, yn fy marn i, wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad neu os nad yw'r wybodaeth y gofynnir amdani gan y gyfraith yn cael ei datgelu.

Rwy'n adolygu a yw'r datganiad ar dudalennau 21 i 22 yn adlewyrchu cydymffurfiaeth yr Ymddiriedolwyr â chyfarwyddyd Trysorlys Ei Mawrhydi ac rwy'n nodi'r ffaith os nad yw'n bodloni'r gofynion a nodir gan y Trysorlys. Nid yw'n ofynnol fy mod yn ystyried a yw'r Datganiad yn mynd i'r afael â phob risg a rheol. Nid yw'n ofynnol chwaith fy mod yn ffurfio barn ar effeithiolrwydd gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol y Cynllun na'i weithdrefnau risg a rheoli. Rwyf yn darllen y wybodaeth arall yn adroddiad yr Ymddiriedolwyr ac yn ystyried y goblygiadau o ran fy adroddiad os wyf yn dod yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau amlwg neu anghysondebau difrifol o fewn y Datganiadau Ariannol. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys Adroddiad yr Ymddiriedolwyr, yr Adroddiad Buddsoddi, Datganiad yr Actiwari, yr atodlen o gyfraniadau a'r Dystysgrif Actiwrai, y Datganiad Cydymffurfio a Gwybodaeth yr Aelodau. Nid yw fy nghyfrifoldebau'n ymestyn i unrhyw wybodaeth arall.

## Sail y farn archwilio

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y Deyrnas Unedig ac Iwerddon) a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae fy archwiliad yn cynnwys ymchwiliad, ar sail profion, i dystiolaeth sy'n berthnasol i'r symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol.

Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau arwyddocaol a wnaed gan, neu ar ran, yr ymddiriedolwyr wrth baratoi'r Datganiadau Ariannol, ac a yw'r polisïau cyfrifyddu'n briodol i amgylchiadau'r Cynllun, ac yn cael eu gweithredu'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.


Cynlluniais a chynhaliais fy archwiliad er mwyn casglu'r holl wybodaeth a'r esboniadau a oedd yn angenrheidiol yn fy nhyb i er mwyn imi gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y Datganiadau Ariannol yn rhydd o gamddatganiadau difrifol, wedi'u hachosi gan dwyll neu drwy afreoleidd-dra neu gamgymeriad arall. Wrth ffurfio fy marn, rwyf hefyd wedi pwyso a mesur pa mor ddigonol y cafodd y wybodaeth ei chyflwyno yn y Datganiadau Ariannol.

## Barn

Yn fy marn i mae'r Datganiadau Ariannol

- yn rhoi darlun cywir a theg o drafodion ariannol y Cynllun yn unol ag Arferion Cyfrifyddu Derbyniol Cyffredinol y Deyrnas Unedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011 ac ar swm a sefyllfa ei asedau a'i rwymedigaethau ar y dyddiad hwnnw, ac eithrio rhwymedigaethau i dalu pensiynau a buddiannau ar ôl diwedd y flwyddyn; ac

- maent yn cynnwys y wybodaeth a nodir yn Rheoliad 3 a'r Atodlen i Reoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gofyniad i dderbyn Cyfrifon Archwiliedig a Datganiad gan yr Archwilydd) 1996.



Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
22 Mehefin 2011

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Cyfrifoldeb y Cynulliad yw cynnal a chadw a sicrhau cywirdeb gwefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru; nid yw'r gwaith y mae'r archwilydd yn ymgymryd ag ef yn ystyried y materion hyn ac, oherwydd hyn, nid yw'r archwilydd yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi'u gwneud i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno am y tro cyntaf ar y wefan.

## Cyfrifon Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2011

## Cyfrif y Gronfa

| | | 2010-11 | 2009-10 |
|---|---|---|---|
| **Incwm y Cynllun** | | **£** | **£** |
| Cyfraniadau i'w derbyn | 4 | 1,365,910 | 1,380,854 |
| Trosglwyddiadau i mewn | | 71,928 | 141,937 |
| Llog a dderbyniwyd | | 33 | 37 |
| Incwm amrywiol | 5 | 7,197 | - |
| | | 1,455,068 | 1,522,828 |
| **Gwariant y Cynllun** | | | |
| Budd-daliadau sy'n daladwy | 6 | 428,081 | 94,283 |
| Ffioedd proffesiynol | 7 | 104,981 | 65,498 |
| Costau gweinyddu eraill | | 3,852 | 4,611 |
| | | 536,914 | 164,392 |
| **Ychwanegiadau net o drafodion ag aelodau** | | 908,154 | 1,358,436 |
| **Buddsoddiadau** | | | |
| Newid yng ngwerth buddsoddiadau'r Gronfa Reoledig ar y farchnad | 8 | 1,332,791 | 3,798,455 |
| Newid yng ngwerth buddsoddiadau'r Gronfa Fynegrifol ar y farchnad | | 98,526 | 110,734 |
| Newid yng ngwerth buddsoddiadau'r Gronfa twf Amrywiol ar y farchnad | | 313,619 | 345,492 |
| Llog arian cadw | 9 | 1,585 | 3,450 |
| **Cynnydd net yn y gronfa yn ystod y flwyddyn** | | 2,654,675 | 5,616,567 |
| **Asedau net y cynllun ar 1 Ebrill 2010** | | 16,129,920 | 10,513,353 |
| **Asedau net y cynllun ar 31 Mawrth 2011** | | **18,784,595** | **16,129,120** |

# Datganiad Asedau Net

| | | Ar 31 Mawrth 2011 | Ar Mawrth 2010 |
|---|---|---|---|
| | | £ | £ |
| **Buddsoddiadau** | | | |
| Cronfa reoledig | 8 | 12,844,099 | 11,511,308 |
| Cronfa fynegrifol | | 1,487,096 | 1,267,165 |
| Cronfa twf amrywiol | | 3,798,422 | 2,271,646 |
| Arian cadw buddsoddiad y Trysorlys | 9 | 250,000 | 484,259 |
| **Asedau presennol** | 10 | 643,404 | 163,208 |
| **Rhwymedigaethau presennol** | 11 | (238,426) | (17,666) |
| **Asedau net y cynllun ar 31 Mawrth 2011** | | **18,784,595** | **16,129,920** |

Dim ond crynhoi trafodion ac asedau net y cynllun mae'r cyfrifon ac nid ydynt yn ystyried rhwymedigaethau i dalu pensiynau a buddion eraill ar ôl diwedd blwyddyn y cynllun.

Cymeradwywyd ar ran yr Ymddiriedolwyr ar 20 Mehefin 2011:





**William Graham**
**Aelod Cynulliad**
**Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr**

**Gareth Jones**
**Ymddiriedolwr**

Mae'r nodiadau ar dudalennau 27 i 31 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## Nodiadau sy'n cyd-fynd â'r Cyfrifon

### 1. Sail y gwaith paratoi.

Mae'r cyfrifon hyn wedi'u paratoi yn unol â'r Datganiad o Arferion a Argymhellir ar Adroddiadau Ariannol Cyfrifon Cynllun Pensiwn, a ddiwygiwyd ym mis Mai 2007.

Mae'r cyfrifon yn crynhoi trafodion ac asedau net y cynllun. Nid ydynt yn ystyried rhwymedigaethau i dalu pensiynau a buddiannau eraill yn y dyfodol.

Mae'r adroddiad actiwaraidd yn ystyried y rhwymedigaethau hyn (gellir gweld datganiad yr actiwari ar dudalen 15 i 17).

### 2. Polisïau Cyfrifyddu

Dyma brif bolisïau cyfrifyddu'r cynllun:

- cyfrifir cyfraniadau arferol, cyfraniadau gwirfoddol i brynu blynyddoedd ychwanegol yn y flwyddyn y maent yn ddyledus.

- cyfrifir buddiannau ar y diwrnod y maent yn ddyledus a chyfrifir ad-daliadau cyfraniadau pan fyddant yn cael eu gwneud.

- mae trosglwyddo gwerthoedd o un cynllun pensiwn i un arall yn cynrychioli'r symiau a gafodd eu derbyn a'u talu yn ystod y flwyddyn i aelodau sydd wedi ymuno â'r Gronfa neu ei gadael.

- cyfrifir yr holl wariant arall yn y cyfnod sy'n berthnasol iddo.

- nodir buddsoddiadau ar yr un pris terfynol sy'n cael ei gyfrifo ar sail pris terfynol y gwarannau gwaelodol ar 31 Mawrth bob blwyddyn. Gall hyn fod yn wahanol i'r pris a ddefnyddir ar gyfer prynu a gwerthu unedau.

### 3. Ysgrifenyddiaeth

Mae'r gost o ddarparu staff ar gyfer ysgrifenyddiaeth y Cynllun yn parhau i gael ei dalu'n uniongyrchol gan Gomisiwn y Cynulliad o dan amodau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth y cytunwyd arno rhwng y Comisiwn a'r Ymddiriedolwyr. Amcangyfrifir mai £67,000 (2009-10 £66,000) oedd y gost ar gyfer cyfnod y cyfrifon hyn.

4. **Cyfraniadau i'w Derbyn**

| | 2010-11 | 2009-10 |
|---|---|---|
| Mae cyfraniadau'n cynnwys: | £ | £ |
| Cyflogwr : cyfraniadau arferol | 964,205 | 974,342 |
| Aelodau : cyfraniadau arferol | 388,254 | 393,299 |
| : prynu Blynyddoedd Ychwanegol | 13,451 | 13,213 |
| | 1,365,910 | 1,380,854 |

Cyfrannodd aelodau 10% i gronni buddion yn seiliedig ar un rhan o ddeugain a 6% i gronni buddion yn seiliedig ar un rhan o hanner cant gyda Chomisiwn y Cynulliad yn cyfrannu 23.8% o gyflogau blwydd-daladwy i'r Cynllun.

Cynyddodd y blynyddoedd ychwanegol oherwydd prynodd un aelod flynyddoedd ychwanegol drwy gyfandaliad yn ystod y flwyddyn.

5. **Incwm amrywiol**

Pan benderfynodd yr Ymddiriedolwyr fuddsoddi yng Nghronfa Bensiwn Twf Amrywiol Baillie Gifford, roedd ad-daliad o 0.20% ar y tâl rheoli blynyddol safonol tan 1 Mehefin 2012 yn rhan o'r cytundeb. Wedyn, bydd yn dychwelyd i'r tâl rheoli blynyddol safonol, sef 0.65% o gyfaswm gwerth y gronfa ar y farchnad fesul blwyddyn ar hyn o bryd, sy'n cael ei ddidynnu o werth y gronfa bob mis.

Y £7,197 yw'r ad-daliad a gafwyd yn ystod 2010-11 (y swm yn 2009-10 oedd dim)

6. **Budd-daliadau taladwy**

| | 2010-11 | 2009-10 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Pensiynau | 111,263 | 94,283 |
| Budd-daliadau Ymddeol - Cyfanddaliadau | 101,410 | - |
| Cyfandaliad Budd-daliadau Marwolaeth | 215,048 | - |
| | 428,081 | 94,283 |

7. **Ffioedd Proffesiynol**

| | 2010-11 | 2009-10 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Ffïoedd Actiwaraidd | 60,297 | 36,015 |
| Ffi Archwiliad | 10,920 | 9,624 |
| Ffioedd Cyfreithiol | 33,764 | 19,859 |
| | 104,981 | 65,498 |

Cynyddodd ffioedd actiwaraidd a chyfreithiol oherwydd roedd angen mewnbwn proffesiynol sylweddol gan Actiwari'r Cynllun a'r Cynghorwr Cyfreithiol er mwyn rhoi'r newidiadau arfaethedig i'r rheolau gerbron y Bwrdd Taliadau i'w cymeradwyo.

8. **Buddsoddiadau**

Delir yr holl fuddsoddiadau yng Nghronfa Bensiwn Reoledig Ballie Gifford.

| **a) Cronfa Bensiwn Reoledig Baillie Gifford** | | **31 Mawrth 2011** | **31 Mawrth 2010** |
|---|---|---|---|
| | Unedau | £ | £ |
| Gwerth y Farchnad ar 1 Ebrill | 2,251,336 | 11,511,308 | 7,712,853 |
| Prisiau prynu | - | - | - |
| Gwarediadau | - | - | - |
| Newid yn y gwerth ar y farchnad | | 1,332,791 | 3,798,455 |
| Gwerth ar y farchnad ar 31 Mawrth | 2,251,336 | 12,844,099 | 11,511,308 |
| Costau ar 31 Mawrth | | 6,842,442 | 6,842,442 |

| **b) Cronfa Bensiwn Fynegrifol Baillie Gifford** | | **31 Mawrth 2011** | **31 Mawrth 2010** |
|---|---|---|---|
| | Unedau | £ | £ |
| Gwerth ar y farchnad ar 1 Ebrill | 727,545 | 1,267,165 | 960,059 |
| Prisiau prynu | 68,162 | 121,405 | 196,372 |
| Gwarediadau | | - | - |
| Newid yn y gwerth ar y farchnad | | 98,526 | 110,734 |
| Gwerth ar y farchnad ar 31 Mawrth | 795,707 | 1,487,096 | 1,267,165 |
| Costau ar 31 Mawrth | | 1,278,695 | 1,157,289 |

| **c) Cronfa Bensiwn Twf Amrywiol Baillie Gifford** | | **31 Mawrth 2011** | **31 Mawrth 2010** |
|---|---|---|---|
| | Unedau | £ | £ |
| Gwerth ar y farchnad ar 1 Ebrill | 1,922,338 | 2,721,646 | - |
| Prisiau prynu | 534,915 | 763,157 | 2,376,154 |
| Gwarediadau | | | |
| Newid yn y gwerth ar y farchnad | | 313,619 | 345,492 |
| Gwerth ar y farchnad ar 31 Mawrth | 2,457,253 | 3,798,422 | 2,721,646 |
| Costau ar 31 Mawrth | | 3,139,311 | 2,376,154 |

Dangosir dosraniad asedau yn Adroddiad Buddsoddi y Rheolwyr Cronfa ar dudalen 10 ac 11.

Ni wneir dosraniadau o’r gronfa, ac mae holl incwm a threth a adferir yn cael ei gyfuno, gan gynyddu gwerth yr unedau.

0.45% y flwyddyn yw ffioedd rheoli‘r Gronfa Bensiwn Reoledig a’r Gronfa Bensiwn Twf Amrywiol a 0.25% yw ffioedd y Gronfa Bensiwn Fynegrifol. Cyfanswm y treuliau, gan gynnwys costau masnachu uniongyrchol yw 0.56% ar gyfer y Gronfa Bensiwn Reoledig a’r Gronfa Bensiwn Twf Amrywiol ac 0.26% ar gyfer y gronfa Bensiwn Fynegrifol a chânt eu tynnu o werth y cronfeydd a’u hadlewyrchu ym mhris uned y cronfeydd.

## 9. **Arian Cadw**

| | 31 Mawrth 2011 | 31 Mawrth 2010 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Cyfrif cadw’r Trysorlys ar 1 Ebrill | 484,529 | 1,750,062 |
| Ychwanegu’r llog ar gyfer y flwyddyn | 1,585 | 3,450 |
| | 485,844 | 1,753,512 |
| (Alldyniadau)/adneuon | (235,864) | (1,269,306) |
| Symudiadau mewn llog cronedig | 20 | 53 |
| Cyfanswm cyfrif cadw’r Trysorlys | 250,000 | 484,259 |

## 10. **Asedau presennol**

| | 31 Mawrth 2011 | 31 Mawrth 2010 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Arian parod yn y banc | 529,910 | 47,712 |
| Cyfraniadau sy’n ddyledus gan y cyflogwr | 113,128 | 115,122 |
| Dyledwyr eraill a rhagdaliadau | 366 | 374 |
| | 643,404 | 163,208 |

Mae cyfraniadau sy'n ddyledus gan y cyflogwr yn cyfeirio at fis Mawrth 2011 ac fe'u talwyd yn llawn i'r cynllun cyn y terfyn amser statudol 19 Ebrill 2011.

## 11.**Rhwymedigaethau presennol**

| | 31 Mawrth 2011 | 31 Mawrth 2010 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Credydwyr: symiau’n daladwy cyn pen Blwyddyn | (238,426) | (17,666) |
| | (238,426) | (17,666) |

Mae ‘Credydwyr: symiau’n daladwy cyn pen blwyddyn’ yn cynrychioli dyledion am waith a wnaed lle na dderbyniwyd yr anfonebau erbyn diwedd y flwyddyn, rhwymedigaethau dyledus sydd heb eu talu (£23,018) a’r taliad marwolaeth mewn gwasanaeth (£215,408) a dalwyd ar 10 Mehefin 2011.

## 12. **Trafodion Partïon Cysylltiedig**

Yn ystod cyfnod y cyfrif mae'r Cynllun wedi cael trafodion perthnasol â Chynulliad Cenedlaethol Cymru, a ystyrir yn barti cysylltiedig.

Datgelir y trafodion hyn yn Nodyn 4 yn y cyfrifon hyn.

Nid oes yr un o Ymddiriedolwyr, Rheolwyr y Cynllun, staff rheoli allweddol neu bartïon cysylltiedig eraill wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion perthnasol â'r Cynllun yn ystod y flwyddyn.

**Datganiad Cydymffurfio**

Diben y datganiad cydymffurfio hwn yw nodi'r wybodaeth ychwanegol sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith.

**Beth yw Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru?**

Mae Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn darparu buddiannau i Aelodau'r Cynulliad ac i Ddeiliaid Swyddi. Mae pob Aelod o'r Cynulliad yn aelodau o'r Cynllun o'r dyddiad y maent yn ymuno â'r Cynulliad, oni bai eu bod yn benodol yn dewis peidio â gwneud hynny.

Dyma brif fuddiannau'r cynllun:

- pensiwn o un rhan o ddeugain neu un rhan o bum deg o gyflog terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth erbyn ymddeol yn 65 oed;
- pensiwn cynnar i aelodau a ymunodd cyn 6 Ebrill 2006, sy'n daladwy pan fyddant yn ymddeol cyn y byddant yn 65 oed, os yw'r aelod wedi cyrraedd 50 oed (gellir lleihau'r pensiwn yn ôl oed/hyd gwasanaeth);
- pensiwn cynnar i aelodau a ymunodd ar ôl 6 Ebrill 2006, sy'n daladwy pan fyddant yn ymddeol cyn y byddant yn 65 oed, os yw'r aelod wedi cyrraedd 55 oed (caiff y pensiwn ei leihau);
- pensiwn wrth ymddeol ar unrhyw adeg oherwydd gwaeledd;
- pensiwn gŵr/gwraig weddw cyfwerth â 5ed/8fed o bensiwn yr aelod (yn seiliedig ar ddarpar wasanaeth os yw'n marw tra bo'n Aelod o'r Cynulliad);
- pensiwn plant (ar gyfradd o chwarter pensiwn sylfaenol neu bensiwn tebygol yr Aelod ar gyfer un plentyn neu dair rhan o wyth ar gyfer dau blentyn neu fwy);
- mae pensiynau sy'n cael eu talu yn cael eu mynegrifo i'r newidiadau yn y Gorchymyn Cynyddu Pensiynau (Adolygu);
- cyfandaliad marwolaeth mewn gwasanaeth cyfwerth â chyflog pedair blynedd ynghyd â darpariaeth ar gyfer mwy nag un enwebai;

Mae’r buddiannau dewisol yn cynnwys:

- prynu blynyddoedd ychwanegol;
- trosglwyddo hawliau pensiwn (i mewn ac allan o’r cynllun);

**Perthynas â Chynllun Ymddeol y Wladwriaeth**

- Mae’r Cynllun wedi'i gontractio o Gynllun Ail Bensiwn y Wladwriaeth a bydd Aelodau felly'n talu cyfradd is o gyfraniad Yswiriant Cenedlaethol.
- Mae'r pensiwn y mae Aelodau sydd wedi ymddeol yn ei dderbyn o'r Cynllun hwn yn ychwanegol i unrhyw hawl i arian o Gynllun Ymddeol y Wladwriaeth.

**Sut y Penodir Ymddiriedolwyr y Cynllun**

- Mae Atodlen 1 o Reolau’r Cynllun yn nodi na fydd ‘mwy’ na 6 Ymddiriedolwr.
- Ar unrhyw adeg, bydd un o’r chwe Ymddiriedolwr yn bensiynwr, os oes unrhyw un yn fodlon sefyll. Lle ceir mwy nag un enwebiad, cynhelir balot i ddewis yr unigolyn â’r nifer uchaf o bleidleisiau ymhlith y pensiynwyr sy’n aelodau o’r Cynllun.
- Dim ond Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru y gellir ei benodi fel Ymddiriedolwr, ond ni fydd Ymddiriedolwr yn peidio â bod yn Ymddiriedolwr os yw’n rhoi’r gorau i fod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru benodi unrhyw Ymddiriedolwr i’r swydd neu ei ddsiwyddo. Gall Ymddiriedolwr ymddiswyddo o’r swydd trwy gyflwyno rhybudd ysgrifenedig i Lywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Cyfarfodydd Ymddiriedolwyr**

Fel arfer, cynhelir cyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr unwaith yn ystod pob un o sesiynau’r Cynulliad, ac weithiau mae cyfarfodydd ychwanegol at ddibenion penodol. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd 3 chyfarfod arferol yr Ymddiriedolwyr.

Gall yr Ymddiriedolwyr weithredu’n ôl penderfyniad y mwyafrif sy’n bresennol mewn unrhyw gyfarfod o'r Ymddiriedolwyr lle ceir cworwm, a’r cworwm ar gyfer unrhyw gyfarfod o’r Ymddiriedolwyr fydd tri.

**Penderfyniad ynghylch Anghydfod Mewnol**

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi gweithredu'r Penderfyniad ynghylch Anghydfod Mewnol yn unol â gofynion Deddf Pensiynau 1995. Gellir cael manylion y weithdrefn gan y Swyddfa Ffioedd.

**Cynghorwyr y Cynllun a Benodwyd gan yr Ymddiriedolwyr Mewn Cysylltiad â'r Gronfa ar 31 Mawrth 2011**

| | |
|---|---|
| Actiwari | Grant Ballantine o Adran Actiwari'r Llywodraeth |
| Archwilydd | Archwilydd Cyffredinol Cymru |
| Bancwyr | Banc Barclays ccc |
| Rheolwr Buddsoddi | Baillie Gifford Life Cyfyngedig |
| Cynghorwr Cyfreithiol | Eversheds |
| Cyfrifyddion y Cynllun | Ysgrifenyddiaeth y Cynllun, Comisiwn y Cynulliad |

Ni fu newidiadau i'r penodiadau ers y cyfnod blaenorol.

**Safon Cyllid**

Mae'r Cynllun wedi'i eithrio rhag gofynion Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Ariannu Cynllun) 2005. Fodd bynnag, yn dilyn cyngor gan gynghorwyr proffesiynol y Cynllun, mae'r Ymddiriedolwyr wedi penderfynu mabwysiadu'r rheoliadau perthnasol fel mater o arfer da lle bo hynny'n ymarferol.

**Statws Treth y Cynllun**

Mae'r Cynllun yn gynllun pensiwn statudol o dan Adran 611A o Ddeddf Trethi Incwm a Chorfforaethol 1988, fel y'i diwygiwyd gan Atodlen 12 o Ddeddf Cyllid 1999, ac mae'n gynllun cofrestredig tybiedig o dan Ddeddf Pensiynau 2004 ac yn 'gynllun cymeradwy' at ddibenion derbyn gwerthoedd trosglwyddo.

**Rheolwyr Buddsoddi**

Ymhlith cyfrifoldebau Baillie Gifford y mae:

(i) cyflawni'r holl swyddogaethau o ddydd i ddydd sy'n ymwneud â rheoli'r Gronfa;

(ii) dyrannu'r portffolio cytbwys rhwng categorïau buddsoddiadau a dethol stociau unigol ym mhob categori buddsoddiadau;

(iii) penderfynu a yw'n briodol cadw neu ryddhau buddsoddiadau unigol yn y portffolio; ac

(iv) arfer y pwerau buddsoddi mewn modd a fydd yn gweithredu'r egwyddorion yn y Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi (SIP), os yw hynny'n ymarferol, ac yn benodol, rhoi ystyriaeth i ba mor addas ac amrywiol yw'r buddsoddiadau o fewn y canllawiau a bennir gan yr Ymddiriedolwyr.

**Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (AVCs)**

Caiff cyfraniadau blynyddoedd ychwanegol eu buddsoddi gyda'r cyfraniadau arferol yng nghronfeydd y Cynllun.